# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Medi 2016

Amser: 08.30 - 09.14

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn gwneud datganiad ar Groesawu'n ôl Athletwyr Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio 2016 ar ddydd Mawrth.

Byddai Plaid Cymru yn defnyddio'r amser a neilltuwyd iddi i gynnal dwy ddadl 30 munud ddydd Mercher.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ddydd Mawrth yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ar ddydd Mercher.

## 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 19 Hydref 2016**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Neil McEvoy (Canol De Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi at y Pwyllgor Cyllid ar gyfer ei ystyried.

Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'n rhaid i'r Bil gael ei basio cyn toriad yr haf er mwyn iddo ddod i rym erbyn mis Ebrill 2018, ac felly na ddylai fod cyfle i ymestyn yr amserlen ar gyfer y Bil ar ôl iddi gael ei chytuno. Nododd hefyd na fyddai modd i'r Pwyllgor Cyllid graffu ar y Bil yn yr amser hwnnw; yn ei barn hi, dylai Rheolwyr Busnes ystyried cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

### 4.2 Biliau Aelodau

Yn dilyn penderfyniad y Rheolwyr Busnes yn gynnar yn y tymor diwethaf i adolygu'r broses ar gyfer Biliau Aelodau ar sail argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y pedwerydd Cynulliad, trafododd y Pwyllgor gynigion ar gyfer newid y drefn bresennol.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am grynodeb gan yr Ysgrifenyddiaeth ar yr opsiynau posibl. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ymgynghori â'u grwpiau a dychwelyd at y mater ymhen tair wythnos.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cais i ymweld â Thŷ'r Arglwyddi

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymweld â Thŷ'r Arglwyddi ddydd Mercher 12 Hydref 2016.

## 6 Rhaglen waith weithdrefnol

### 6.1 Y defnydd o amser y Cynulliad

Yn y cyfarfod ar 13 Medi, trafododd y Rheolwyr Busnes bapur ar y defnydd o amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn, gan gytuno i drafod y cynigion â'u grwpiau a dychwelyd at y mater yng nghyfarfod heddiw.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapurau pellach ar ddatganiadau Aelodau a chwestiynau amserol, a chytunwyd y byddai angen cyfathrebu ag Aelodau ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ganddynt i gyfrannu at wahanol fathau o fusnes yn y Cyfarfod Llawn.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Deisebau yn holi a ydynt yn bwriadu bwrw ymlaen ag argymhelliad i gynnal dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar ddeisebau sy'n cyrraedd trothwy penodol o ran llofnodion, ac yn gofyn iddynt gadarnhau a ydynt am i'r Pwyllgor Busnes fwrw ymlaen â'r newid i'r Rheol Sefydlog a gynigiwyd yn adroddiad y pwyllgor blaenorol ar ei Adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus.

### 7.2 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Datganiadau Pwyllgorau yn y Cyfarfod Llawn

Nododd y Pwyllgor lythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nodi ei fwriad i gyflwyno datganiad ar Fil Cymru yn yr wythnosau i ddod.

## Unrhyw Fusnes Arall

*Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru / Dadl ar Fil Cymru*

Gofynnodd y Llywydd pryd y byddai'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru. Dywedodd Jane Hutt wrth Reolwyr Busnes y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

*Datganiadau Pwyllgorau*

Yn ystod datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn bresennol ar gyfer yr eitem. Dywedodd y Llywydd y byddai'n annog hyn fel arfer da ar gyfer dadleuon Pwyllgorau yn y dyfodol. Dywedodd Rheolwyr Busnes hefyd ei bod yn ddefnyddiol bod y datganiad wedi cael ei ddosbarthu i bob Aelod cyn ei draddodi yn y Cyfarfod Llawn.

*Presenoldeb yn y Cyfarfod Llawn*

Dywedodd y Llywydd fod rhai achlysuron yn ystod yr wythnosau diwethaf pan oedd Ysgrifenyddion y Cabinet ac Aelodau wedi cyrraedd yn hwyr, neu wedi cyrraedd ar y funud olaf, ar gyfer eitemau yr oeddent yn siarad ynddynt, a bod Aelodau eraill wedi gadael y Siambr cyn diwedd yr eitemau. Atgoffwyd y Rheolwyr Busnes o'r confensiynau yn y Siambr ac fe'u hanogwyd i godi'r mater gyda'u grwpiau.